



Cynhadledd Tai

FAWR

Gwesty Metropole, Llandrindod
10/11 Hydref 2019

#onebig19

Croeso i ddigwyddiad y flwyddyn ar gyfer swyddogion tai cymdeithasol Cymru! Mae'r Gynhadledd Tai Fawr 2019 yn dychwelyd i hysbysu ac ysbrydoli gweithwyr proffesiynol tai cymdeithasol o ystod o ddisgyblaethau i roi gwybod i chi am y datblygiadau diweddar mewn polisi tai a rhannu arfer da i fynd ag ef yn ôl i'ch sefydliad.

Wrth i argymhellion yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy gael eu datblygu a'u sefydlu ar draws y sector, mae newid yn bendant iawn ar y gorwel, a bydd cydweithredu ar bob lefel yn allweddol i'w lwyddiant. Bydd Dr Paul Chadwick yn cynorthwyo drwy osod y llwyfan ar gyfer y cyfnod hwn yn ystod ei sesiwn lawn agoriadol ac mae themâu cydweithredu, datblygu gwasanaeth a newid diwylliant yn bendant iawn yn parhau drwy gydol y rhaglen. Byddwch yn gadael y gynhadledd yn gwybod y diweddaraf am wahanol bynciau polisi yn cynnwys credyd cynhwysol, iechyd a diogelwch, gosod rhenti, ymddygiad gwrthgymdeithasol a dyfodol tai â chymorth.

Caiff ein 'Parth Dysgu' newydd sbon ei lansio eleni sy'n cynnwys sesiynau rhyngweithiol dan arweiniad hyfforddwyr medrus i roi'r sgiliau ymarferol a dull gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion dydd i ddydd o fewn eich sefydliad. Mae ein Parth Datblygu hefyd yn dychwelyd gyda rhaglen swmpus sy'n crisialu'r heriau mewn cyflenwad tai; darparu tai ansawdd uchel, effeithiol, diogel a fforddiadwy mewn cymunedau deniadol.

Byddwch yn clywed gan y rhai sydd ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Creu Creadigrwydd CHC a bydd y pleidleisio ar gyfer enillwyr gwobr 2019 yn agor ar ôl y sesiwn yn y gynhadledd. Bydd yr ardal Arddangos yn rhoi digonedd o gyfleoedd i gwrdd gyda sefydliadau a all eich helpu chi a rhannu eu harbenigedd. Bydd hefyd gyfle i rwydweithio gyda chydweithwyr proffesiynol yn y sector tai o bob rhan o Gymru.

Edrychwn ymlaen yn awr at eich croesawu i'r gynhadledd a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau digwyddiad eleni.

Tîm Polisi a Materion Allanol CHC

Cynhadledd Tai Fawr 2019

Gwesty Metropole, Llandrindod

10/11 Hydref 2019

9.00am	Cofrestru a Lluniaeth a noddir gan Hugh James Cyfreithwyr
9.45am	Croeso
	Ystafelloedd David Spencer
	<i>Will Atkinson, Rheolydd Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru</i> @WillA_CHC
9.55am	Newid Ymddygiad
	<i>Dr Paul Chadwick, Uwch Gymrawd Addysgu, Coleg Prifysgol Llundain</i>
	Mae Dr Paul Chadwick yn Uwch Gymrawd Addysgu yng Nghanolfan Newid Ymddygiad UCL yn ogystal ag yn Hyfforddydd a Seicolegydd Ymgynghorol Clinigol ac Iechyd gydag arbenigedd mewn newid ymddygiad ar gyfer oedolion a phlant. Yn y sesiwn ryngweithiol yma bydd Paul yn galluogi cynrychiolwyr i ddynodi'r hyn maent yn ceisio ei gyflawni gyda'u rhaglen newid ac os ydynt yn dylanwadu ar y bobl gywir i gynnal newid.
10.40am	Lansio Alcemi
	<i>Edwina O'Hart, Cyfarwyddydd Cynorthwyol, Gwasanaethau Aelodau a Chyfathrebu, Cartrefi Cymunedol Cymru</i> @EdwinaOHart
	Bydd ein rhaglen dyfodol cyffrous, Alcemi, yn paratoi aelodau ar gyfer y dyfodol a bydd ganddi ran hanfodol i gyflawni gweledigaeth Gorwelion Tai i wneud cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. Bydd Edwina yn lansio'r rhaglen yn swyddogol ac yn esbonio sut y gall cynrychiolwyr gymryd rhan yn y rhaglen.

11.00am	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio, noddir gan Hugh James Cyfreithwyr
----------------	--

11.30am	Diweddariad ar y Credyd Cynhwysol
	<i>@DWP</i>
	Ystafelloedd David Spencer
	Bydd y sesiwn yma yn rhoi diweddariad i gynrychiolwyr ar y cynllun peilot ymfudo a reolir sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Harrogate yn ogystal â'r hyn sydd ar y gorwel yng nghyswllt Credyd Cynhwysol. O'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn: • Barod am newidiadau yn y Credyd Cynhwysol a gyflwynir dros y 12 mis nesaf • Cael cyfle i ofyn cwestiynau ar y Credyd Cynhwysol.

12.15pm	<u>Gweithdai</u> Gwobr Creu Creadigrwydd - Clywed gan Ymgeiswyr y Rhestr Fer
	Ddeunaw mlynedd yn ôl, sefydlodd Cartrefi Cymunedol Cymru ar y cyd â John Chown gynllun Gwobr i gydnabod arloesedd tai er cof am berson arbennig - Pat Chown. Rhoddodd Pat ran fawr o'i bywyd i weithio i ddiwallu anghenion pobl am gartrefi yng Nghymru. Nod y Wobr yw cydnabod arloesedd a ffyrdd newydd o ymateb i faterion dydd-i-ddydd. Yn y sesiwn byddwn yn clywed gan y tri phrosiect sydd ar y rhestr fer a bydd y pleidleisio yn agor ar ôl y sesiwn yma a chyhoeddir enwau'r enillwyr yng Nghynhadledd Flynyddol CHC. Drwy fynychu'r sesiwn bydd cynrychiolwyr yn: • Cael eu hysbrydoli gan y prosiectau arloesol a chael syniadau i'w rhoi ar waith yn eu sefydliadau eu hunain.

12.15pm

Gweithdai

Dull Gweithredu Syniadau Systemau at Wasanaethau Tai

Serena Jones, Tai Coastal

@serenaMjones, @CoastalHousing

Bydd y sesiwn yma'n rhoi cyflwyniad i gynrychiolwyr ar sut mae timau tai a chynnal a chadw Coastal yn defnyddio syniadau systemau fel eu dull ar gyfer gwelliant parhaus ac effaith ehangach hyn ar ddiwylliant.

O'r sesiwn yma bydd cynrychiolwyr yn cael:

- Trosolwg o syniadau systemau fel dull
- Cael cyfle i ofyn cwestiynau ar sut mae'n gweithio'n ymarferol
- Dysgu am effaith hyn ar ddiwylliant sefydliadol

12.15pm

Gweithdai

Gwersi a Ddysgwyd o brosiect Rhannu Tai

Jason Wroe, Cymdeithas Tai Newydd

@jmwroe, @NewyddHousing

Gyda digartrefedd ar gynnydd ar draws y Deyrnas Unedig a mwy o alw am anheddau fforddiadwy un ystafell wely nag o gyflenwad ar gael, sefydlwyd Rooms4U ym mis Hydref 2016 i gynnig opsiwn tai drwy lety rhannu fforddiadwy i bobl ifanc ym Mro Morgannwg.

Bydd Jason yn trafod agweddau cadarnhaol a hefyd negyddol y prosiect Rhannu Tai.

12.15pm

Gweithdai

Newid Tai - Sesiwn Dynodi'r Heriau

Edwina O'Hart a Hayley Macnamara, Cartrefi Cymunedol Cymru

@EdwinaOHart, @Hayley_CHC

Sesiwn ryngweithiol fydd yn rhoi cyfle i fwydo i raglen Newid Tai a dynodi'r heriau sy'n wynebu cymdeithasau tai, tenantiaid a staff.

12.15pm

Parth Dysgu

	Dosbarth Meistr Ymchwil
	Yn newydd i'r gynhadledd, cymerwch ran yn y Parth Dysgu. Bydd y sesiwn gyntaf gyda Rob yn edrych ar sgiliau Ymchwil a Dadansoddi ar gyfer rhai heb fod yn arbenigwyr.

1.15pm	Cinio, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio - Panel
---------------	---

2.15pm	Dyfodol Tai â Chymorth - Panel
	<i>Serena Jones, Tai Coastal @serenaMjones, @CoastalHousing Katie Dalton, Cymorth Cymru @Katie_Dalton, @CymorthCymru Yoric Irving Clarke, CIH @YoricCIH</i>
	<i>Ystafelloedd David Spencer</i>
	Mae Tai â Chymorth ar groesffordd gyda chynnydd mewn arferion arloesol tebyg i Tai yn Gyntaf. Ymunwch â'n panel wrth fapio dyfodol Tai â Chymorth wrth i ni glywed gan dri arbenigwr ar y newidiadau y gallwn eu gweld yn y ddegawd nesaf o ddarparu gwasanaeth.

3.00pm	Lansio Adroddiad ar Eiddo Gwag
	<i>John Griffiths AC, Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>

3.15pm	<u>Gweithdai</u>
	Cartrefi Gwag
	<i>Naomi Stocks, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Michelle Collins, Cymdeithas Tai United Welsh</i>
	Mae dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd yn rhan allweddol o fynd i'r afael â'r argyfwng tai. Dewch i glywed gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai United Welsh ar y camau ymarferol y gallwn eu cymryd gan gydweithio gydag awdurdodau lleol i ddod ag adeiladau yn ôl i safonau addas ar gyfer byw ynddynt.

3.15pm	<u>Gweithdai</u> WRAP
	<i>Cymoedd i Arfordir a WRAP</i>
	Mae angen i gymunedau, o'r gweithgor lleiaf i'r gymdogaeth fwyaf, feithrin, cynnal ac atgyweirio eu perthnasoedd yn barhaus er mwyn byw gyda'i gilydd gan ddangos parch at ei gilydd. Mae WRAP a Cymoedd i Arfordir yn esbonio sut maent yn cydweithio a sut y gall hynny newid y cyswllt sydd gan gymdeithasau gyda'u tenantiaid.

3.15pm	Sicrhau Fforddiadwyedd mewn Tai Cymdeithasol
	<i>Dan Hayes, Trivallis a Sioned Hughes, Altair</i> <i>@WeAreTrivallis, @AltairLtd</i>
	Mae cymdeithasau tai yn gweithredu modelau arloesol i sicrhau fforddiadwyedd ar gyfer eu tenantiaid. Dewch i glywed gan un sefydliad o'r fath ac Altair ar sut y gall y dulliau hyn weithio yn eich cymdeithas a pha gefnogaeth fydd y sector ei hangen i ddatblygu modelau o'r fath.

11.30am	Parth Dysgu - Cyflwyniad i Wirio Nodwyddau
	<i>Francesca Burrows, Call of the Wild</i> <i>@callwildleader</i>
	Yr un sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwirio nodwyddau ag ar gyfer gwirio am fomiau wrth ymyl y ffordd. Mewn tai cymdeithasol, mae'n hanfodol fod staff rheng-flaen yn gwybod sut i drin risgiau a thrafod eitemau yn y ffordd gywir i osgoi halogiad o glefydau fel Hepatitis B a HIV. Caiff cynrychiolwyr sesiwn hyfforddiant ymarferol fer fel y gallant ddysgu sut i atal halogiad a thrin nodwyddau ac eitemau minig mewn ffordd ddiogel.

4.15pm	Lluniaeth, Gweld yr Arddangosfa a Rhwydweithio a noddir gan Hugh James Cyfreithiwr
---------------	---

4.45pm	Allgau Cymdeithasol - a ydym yn adfywio am y rhesymau cywir
	<i>Yr Athro Anne Power, Athro Emeritws Polisi Cymdeithasol, LSE</i>
	Ystafelloedd David Spencer
	Mae Anne Power yn Athro Emeritws Polisi Cymdeithasol yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) ac yn Bennaeth Tai a Chymunedau LSE, grŵp ymchwil o fewn y Ganolfan Dadansoddi Allgau Cymdeithasol. Mae'n awdur llawer o lyfrau, adroddiadau ac erthyglau ar dai, dinasoedd a chymunedau incwm isel. Lle mae rhai pobl yn gweld adeiladau diffaith, afiach a gwrthgymdeithasol y dylid eu dymchwel, mae eraill yn gweld cartrefi, cymunedau a chyfleoedd ar gyfer adfywio ac adnewyddu. Bydd Anne yn defnyddio ei phrofiadau ac yn herio cynrychiolwyr i ystyried y ffactorau cymdeithasol mewn tai ac adfywio. Bydd yn annog sefydliadau i geisio ymgysylltiad ystyrlon gyda phreswylwyr a chymunedau i atal dadleoli cymunedol a gwrthdaro.

5.30pm	Diwedd Diwrnod 1
---------------	-------------------------

7.30 pm	Derbyniad Diodydd a noddwyd drwy garedigrwydd Ark Consultancy
----------------	--

8.00pm	Cinio'r Gynhadledd, gydag adloniant i ddilyn
---------------	---

Diwrnod 2 - Dydd Gwener 11 Hydref

9.00am	Cofrestru, Gweld yr Arddangosfa a Lluniaeth Ystafelloedd Powys a Neuadd Ddawns
9.15am	Hacio Diwylliant
	<i>Neil Almond, 91Untold</i> <i>@91Untold</i>
	Ydych chi erioed wedi ysu am fedru potelu agweddau a sgiliau eich perfformwyr gorau ac ar gyffyrddiad botwm lanlwytho'r 'sudd' i weddill eich tîm? Neu lwyddo i ffrydio'r weledigaeth sydd yn eich pen fel bod yr holl busnes yn alinio o'i amgylch? Efallai mai'r cyfan rydych eisiau ei wneud yw cynyddu ychydig ar lefel ymddygiad allweddol? Yn 91Untold mae'r ffocws ar newid cadarnhaol go iawn, nid dim ar y 'beth' ond y 'sut'. Bydd Neil yn helpu cynrychiolwyr i ddefnyddio eu potensial cudd i sicrhau newid diwylliannol sy'n parhau.
10.15am	Ymagwedd Holistig at Iechyd Cyheoddus
	<i>Prif Arolygydd Alastair Muir, Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gostwng Trais yr Alban</i>
	Bydd cynrychiolwyr yn clywed sut mae'r Alban wedi defnyddio ymagwedd iechyd cyhoeddus at fynd i'r afael â thrais a sut mae hyn wedi helpu i atal a gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu treisgar yn cynnwys troseddau cylllell. Bydd y Prif Arolygydd Alastair Muir yn tynnu sylw at y partneriaethau a gafodd eu llunio a sut y gall cymdeithasau tai yng Nghymru ddysgu o'r ymagwedd yma.
11.00am	Lluniaeth, Arddangosfa a Rhwydweithio Ystafelloedd Powys a'r Neuadd Ddaws
11.30 am	<u>Gweithdai</u> Buddsoddiad Cymunedol
	<i>Adam Chester, HACT</i> <i>@HACThousing</i>

	Gwyddom fod adeiladu cymunedau cryf mor bwysig â darparu cartref. Bydd Adam yn ymchwilio sut ydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd a newid ac yn hysbysu cynrychiolwyr sut y gallant fesur effaith y buddsoddiad hwnnw.
--	---

11.30am	<u>Gweithdai</u> Cynnal Tenantiaethau
	<i>Claire Pearce-Crawford, Cartrefi Melin</i> <i>@MelinHomes</i>
	Wrth i'r sector tai fynd i'r afael gydag amrywiaeth o faterion yn cynnwys diwygio llesiant, poblogaeth sy'n heneiddio ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, mae mater cynaliadwyedd tenantiaethau yn cael sylw cynyddol gan weithwyr proffesiynol yn y sector tai. Dewch i glywed sut mae Cartrefi Melin, drwy gynyddu buddsoddiad mewn cefnogaeth i denantiaid, wedi cynnal cyfradd troi allan isel iawn a sut y gellir rhoi hyn ar waith yn eich sefydliad eich hun.

11.30am	<u>Gweithdai</u> Invisible Creations
	<i>Laura Wood, Cyfarwyddydd, Invisible Creations</i> <i>@InvisCreations</i>
	Fel landlordiaid mae gennym gyfrifoldeb i gadw ein tenantiaid yn ddiogel a hefyd ddarparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid iddynt, cefnogi eu hiechyd a'u llesiant ac yn y pen draw roi lle gwych iddynt fyw! Mae Invisible Creations yn syniad a gychwynnwyd yn rhaglen Greenhouse y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol y llynedd. Mae'n fusnes cymdeithasol newydd yn canolbwyntio ar sut y gall landlordiaid roi cefnogaeth well i bobl wrth iddynt heneiddio drwy ddarparu cyfres amgen o addasiadau cynnil a gwell o ran estheteg i'w cartrefi. Bydd Laura yn rhannu eu stori o'r creu i gobeitho fod mewn sefyllfa i ddod â'u cynnyrch i'r farchnad yn ddiweddarach eleni.

11.30am	<u>Gweithdai</u> Strategaeth Cynhyrchu Oddi ar y Safle
	<i>Bethan Evans a Vicky Kells, Clarke Willmott</i> <i>@ClarkeWillmott</i>

	Argymhellodd yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth o amgylch strategaeth cynhyrchu cartrefi oddi ar y safle. Bydd Bethan a Vicky yn amlinellu uchelgais Cymru i fanteisio ar gynhyrchu oddi ar y safle a dulliau modern o adeiladu i fynd i'r afael â phrinder tai a rhwystrau datblygu, yn ogystal â'r cyfleoedd y mae dulliau modern o adeiladu yn eu rhoi i sefydliadau.
--	--

11.30am	Ymgyfraniad Tenantiaid
	<i>David Rhys Wilton, Prif Weithredydd, TPAS Cymru</i> @TPASCymru
	Mae ymgysylltu ystyrlon gyda thenantiaid yn hanfodol i ddatblygu gwasanaeth a bodlonrwydd tenantiaid. Bydd TPAS Cymru yn trafod eu canfyddiadau o'u Pyls Tenantiaid a thrafod y cyfleoedd i sefydlu diwylliant tryloyw o ymgysylltu ac atebolrwydd.

11.30am	Cymdeithasau Tai a Byrddau Iechyd yn Darparu gyda'i Gilydd
	<i>Glynne Roberts, Cyfarwyddydd Rhaglen (Iach Gogledd Cymru), Mair Edwards, Grŵp Cynefin</i>
	Mae cymdeithasau tai yn bartneriaid allweddol wrth gefnogi iechyd a llesiant eu cymunedau. Bydd y gweithdy hwn yn ymchwilio enghreifftiau diweddar o bartneriaethau rhwng cymdeithasau tai a bwrdd iechyd yn y Gogledd, a gwersi a ddysgwyd y gellir eu rhoi ar waith ar draws Cymru.

11.30am	Y Cyfle Busnes Cymdeithasol - Gwireddu Potensial Lleol
	<i>Rhian Edwards a David Madge, Canolfan Cydweithredol Cymru</i> @WalesCoOpCentre
	Mae gan y sector LCC yng Nghymru gyfle gwirioneddol i ddefnyddio ei rym gwario i wella a thyfu'r economi sylfaen yng Nghymru, yn neilltuoel y sector busnes cymdeithasol. Bydd y gweithdy hwn yn yn ymchwilio'r cyfle yn fanylach ac yn edrych yn benodol ar y meysydd dilynol: • Deall sut gall LCC ymgysylltu â busnesau cymdeithasol mewn gweithgredd gweithredol

	• Deall maint a gallu darparu y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru • Ymchwilio sut y gall gweithio gyda busnesau cymdeithasol wella profiad tenantiaid • Adolygu heriau ymgysylltu busnes cymdeithasol drwy waith prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru • Adolygu arfer da ar draws y sector gydag astudiaethau achos a rhannu dysgu • Deall cyfleoedd ar ymgysylltu yn y gadwyn gyflenwi drwy waith gwasanaeth Cyswllt Busnes Cymdeithasol.
--	---

12.30 pm	Sut i Wrando ar Denantiaid i Ysgogi Newid
	<i>Helen Reynolds, Social for the People</i> <i>@HelReynolds</i>
	Ystafelloedd David Spencer
	Mae cysylltiad cynhenid rhwng arloesedd â'r syniad o newydd-deb, syniadau, diwylliannau, systemau a chynnyrch newydd sy'n ychwanegu gwerth, os nad ydych yn gwrando ar ein cwsmeriaid ac yn deall beth sydd yn bwysig iddynt a sut y bydd newid yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau. Bydd Helen yn rhoi'r dulliau i gynrychiolwyr wybod sut i wrando oa chyfleu newid yn effeithlon i'ch tenantiaid.

1.15pm	Casgliadau'r Gynhadledd
1.20 pm	Cinio a Gadael